



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder



Swyddfa Gartref



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Protocol Cymru Gyfan

Lleihau nifer y plant ac oedolion ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael eu troseddoli

Disgwyliadau ar gyfer ymarfer ar draws asiantaethau i leihau nifer y plant (hyd at 18 oed) ac oedolion ifanc (hyd at 25 oed) â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael eu troseddoli'n ddiangen

Cyflwyniad

1. Mae'r term 'plentyn' a ddefnyddir yma yn cyfeirio at unigolyn hyd at 18 oed. Mae'r term 'oedolion ifanc' a ddefnyddir yma yn cyfeirio at unigolion 18-25 oed.
2. Sylweddolwn nad yw plant yn eu harddegau yn hoffi cael eu galw'n blant o bosibl, a bod yn well ganddynt y term person ifanc. Nid yw'r ffaith y defnyddir y term 'plentyn' yn y canllawiau hyn yn golygu y dylai ymarferwyr ddefnyddio'r term gyda phawb o dan 18 oed.
3. Caiff y protocol ei anelu at amrywiaeth o sefydliadau, yn cynnwys gwasanaethau plant mewn awdurdodau lleol, darparwyr gofal (gwasanaethau maethu, cartrefi plant a darpariaethau eraill), heddluoedd, Timau Troseddwy'r Ifanc, Gwasanaethau Prawf, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi, Barnwriaethau Cyfiawnder Ieuenctid lleol, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a gwasanaethau iechyd lleol, yn cynnwys iechyd meddwl. Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr, ac mae gan bob gwasanaeth sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, yn cynnwys y trydydd sector, rôl i'w chwarae.
4. Pan fo plant yn cael gofal gan y wladwriaeth, mae gennym gyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo'u lles a gweithredu fel rhieni corfforaethol da er mwyn iddynt allu cyrraedd eu llawn botensial. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn ymestyn i rai pobl ifanc (sydd wedi bod mewn gofal) hyd at eu pen-blwydd yn 25 oed.
5. Ymhellach, mae gan y rhai sy'n cyflawni swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae gan bob plentyn hawliau o dan y Confensiwn, heb ddioddef gwahaniaethu. Pan fo plant mewn gofal, y cwestiwn mae'n rhaid inni ei ofyn yw *'a fyddai hyn yn ddigon da i'm plentyn fy hun?'*
6. Mae dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn cynyddu'r tebygolrwydd o droseddu yn y dyfodol, a cheir dyletswydd gofal gyffredinol i ddargyfeirio plant a phobl ifanc oddi wrth y system cyfiawnder troseddol pa bryd bynnag y bo modd, yn cynnwys plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal.
7. Mae mwyafrif y plant yn mynd i ofal yn sgil camdriniaeth ac esgeulustod, a byddant yn dioddef trawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE). Bydd hyn yn effeithio ar eu datblygiad emosiynol ac ymddygiadol, a gall arwain at ymddygiad a ystyrir yn heriol.
8. Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ffactor risg allweddol mewn perthynas â throseddu a dioddef.¹ Mae Camfanteisio Troseddol ar Blant, yn ôl ei natur, yn golygu cynnwys plant mewn ymddygiad troseddol. Hefyd, ceir cysylltiad rhwng y risg o ddioddef Camfanteisio Rhywiol ar Blant ac ymwneud â'r system troseddwy'r ifanc, yn enwedig yn achos bechgyn.²

9. Eisoes, rydym wedi cymryd camau mawr i leihau nifer y plant sy'n cael eu troseddoli. Ers mis Rhagfyr 2009, mae nifer y newydd-ddyfodiaid a ddaw i gysylltiad â'r system troseddwr ifanc am y tro cyntaf yng Nghymru a Lloegr wedi gostwng 84%. Mae hyn yn glod i'r holl asiantaethau a'r holl ymarferwyr perthnasol.
10. Fodd bynnag, er nad yw'r mwyafrif llethol o blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder, ar 1 Chwefror 2021 dangosodd cipolwg ar lwyth achosion Tîm Troseddwr Ifanc Cymru fod 21% ohonynt mewn gofal neu wedi gadael gofal.³ Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch i atal ymddygiad troseddol posibl. Nid oes data cyson i'w gael ledled Cymru ar hyn o bryd ar gyfer unigolion 18-25 oed â phrofiad o fod mewn gofal.
11. Mae adolygiadau David Lammy AS a Charlie Taylor⁴ yn tynnu sylw at anfanteision arbennig sy'n wynebu plant, pobl ifanc ac oedolion ifanc Du Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig a orgynrychiolir yn y system gofal a'r system cyfiawnder troseddol fel ei gilydd.
12. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi'r gofynion ar gyfer sicrhau y darperir gwasanaethau lleol i atal plant rhag troseddu, ac i hyrwyddo'u llesiant yn y dyfodol.
13. Ymhellach, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi gofynion ar gyfer cynorthwyo a gofalu am blant mewn gofal a phlant sy'n gadael gofal.⁵ Diben cyffredinol Rhan 6 o'r Ddeddf yw diogelu a hyrwyddo llesiant plant mewn gofal, plant a gaiff eu lletya a phlant sy'n gadael gofal. Mae hefyd yn ceisio hyrwyddo cadernid a gwireddu canlyniadau llesiant personol.
14. Mae Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid Cymru⁶ yn nodi gweledigaeth gyffredin Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. Mae'n rhoi dull 'plant yn gyntaf' ar waith wrth ymdrin â chyfiawnder ieuenctid er mwyn sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar y plant yn hytrach nag ar y gwasanaeth, ei fod yn diwallu anghenion unigol y plant, a'i fod yn seiliedig ar drawma ac yn ymateb i les pennaf y plant. Ledled Cymru, mae dull cenedlaethol ar gyfer dargyfeirio ac ymyrryd yn gynnar wedi'i roi ar waith trwy gyfrwng y Canolfannau sy'n gweithredu yn y rhan fwyaf o ardaloedd Timau Troseddwr Ieuenctid.
15. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Hwb Cymorth ACE⁷ sy'n parhau i fod yn ganolog o ran datblygu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru – gwasanaethau sydd nid yn unig yn 'ymwybodol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod', ond sydd hefyd yn seiliedig ar drawma, gan gysylltu gyda gwaith Straen Trawmatig Cymru.
16. Nod y rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd yw rhoi dull 'iechyd y cyhoedd' ar waith o ran adnabod plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed ledled Cymru trwy

ddefnyddio lens Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a rhoi ystyriaeth i drawma. Mae rhwydwaith dysgu ACE Camau Cynnar Gyda'n Gilydd yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol i'r cyhoedd, i ymarferwyr ac i'r Heddlu ynglŷn â rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd a'i gwaith o ran Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE). Y nod yw rhannu gwybodaeth ac ymchwil ddefnyddiol yn ymwneud â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, yn ogystal ag arferion gorau ac adnoddau. Datblygwyd rhwydwaith dysgu ACE Camau Cynnar gyda'n Gilydd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, holl heddluoedd Cymru a phartner-sefydliadau ledled y DU.

17. Caiff Straen Trawmatig Cymru⁸ ei noddi gan Lywodraeth Cymru. Ei nod yw gwella iechyd a llesiant pobl o bob oed yng Nghymru sy'n byw gydag anhwylder straen wedi trawma (PTSD) neu anhwylder straen wedi trawma cymhleth (CPTSD), neu sydd mewn perygl o ddatblygu'r cyflyrau hyn. Menter genedlaethol yw Straen Trawmatig Cymru, ac mae'n gweithio trwy gyfrwng rhwydwaith o wasanaethau lleol hygyrch sy'n canolbwyntio ar y bobl y maent yn ceisio'u helpu, a hynny trwy gynnig llwybrau gofal symlach er mwyn osgoi gorfod asesu ac atgyfeirio dro ar ôl tro yn ddiangen. Mae'r fenter yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion, ac mae pob rhanddeiliad perthnasol – yn cynnwys pobl â phrofiad o fyw gydag anhwylder straen wedi trawma neu anhwylder straen wedi trawma cymhleth – yn creu, yn darparu ac yn berchen ar y fenter hon ar y cyd.
18. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-2026⁹ yn nodi ein huchelgeisiau ar gyfer plant, pobl ifanc a phobl sy'n wynebu'r heriau mwyaf, ynghyd â'n hymrwymadau i'w cynorthwyo. Mae hyn yn cynnwys ymrwymadau penodol yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi gadael gofal.¹⁰
19. Gyda'i gilydd, mae polisiâu a threfniadau presennol a datblygol i ategu ymarfer ac ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer uchelgeisiau cyffredin yn ymwneud ag ymarfer sy'n canolbwyntio ar blant, sy'n ymwybodol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac sy'n seiliedig ar drawma, a bydd yr ymarfer yma'n ategu nodau'r Protocol hwn a'r modd y'i rhoddir ar waith.

Diben y protocol

20. Mae'r protocol hwn yn nodi arferion gorau ar gyfer osgoi troseddoli plant (hyd at 18 oed) ac oedolion ifanc (hyd at 25 oed) â phrofiad o fod mewn gofal, pa bryd bynnag y bo modd.
21. Bwriad y protocol cenedlaethol hwn ('y protocol') yw hyrwyddo ymarfer ar draws asiantaethau, a ategir gan drefniadau lleol a rhanbarthol, er mwyn helpu i leihau nifer y plant ac oedolion ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael eu troseddoli'n ddiangen.
22. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r protocol gynorthwyo'r rhai a fydd, yn ystod eu gwaith, yn dod i gysylltiad â phlant ac oedolion ifanc â phrofiad o fod mewn gofal – sef eu cynorthwyo i rannu fframwaith 'egwyddorion a

disgwyliadau' cyffredin a seilir ar ddull sy'n hyrwyddo hawliau plant a hawliau dynol.

23. Fframwaith arferion da ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phlant (hyd at 18 oed) ac oedolion ifanc (hyd at 25 oed) â phrofiad o fod mewn gofal – dyna yw'r protocol hwn. Ei nod yw osgoi erlyn y plant a'r oedolion ifanc hyn pa bryd bynnag y bo hynny'n bosibl ac yn briodol trwy annog ymatebion a fydd yn gwneud troseddoli, troseddu ac aildroseddu yn llai tebygol trwy hyrwyddo'r canlynol:

- Ymarfer sy'n ymwybodol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac sy'n seiliedig ar drawma, ac a ategir gan ddealltwriaeth o effaith profiadau plentyndod ar niwroddatblygiad ac ymddygiad;
- Ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac ar yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn; gwrando ar safbwyntiau plant, ynghyd ag ystyried eu barn wrth lunio polisïau ac yn y ffordd y rhoddwn ein hymarfer ar waith;
- Ymarfer sy'n cydnabod bod Camfanteisio Troseddol ar Blant yn fater diogelu, yn unol â [Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#) a [Chanllaw Ymarfer Cymru Gyfan](#). Yn achos plant a gaiff eu cam-drin trwy gyfrwng Camfanteisio Troseddol ar Blant, dylid eu hystyried fel plant yn gyntaf a dylid rhoi ystyriaeth i'w gofal a'u hanghenion cymorth yn yr un modd ag y byddid yn gwneud hynny ar gyfer unrhyw blentyn arall. Mae Camfanteisio Troseddol ar Blant, gan gynnwys Llinellau Cyffuriau, yn achosi niwed mawr i blant.
- Ymarfer a ategir gan ddealltwriaeth o'r gydberthynas rhwng materion diogelu, fel mynd ar goll, Camfanteisio Troseddol ar Blant, Camfanteisio Rhywiol ar Blant, Ymddygiad Rhywiol Niweidiol a masnachu plant; gan ddeall ar yr un pryd fod angen ymateb cyson, sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sydd wedi'i seilio ar anghenion unigol, yn unol â [Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#), [Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan](#) a chanllawiau statudol amlasiantaethol.¹¹ Bydd y rhain i gyd yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn er mwyn atal troseddoli plant pa bryd bynnag y bo modd.
- Ymarfer sy'n cydnabod bod gofalwyr maeth a gofalwyr lleoliadau preswyl yn rhan allweddol o'r tîm¹² o safbwynt deall anghenion unigol plant a deall y dulliau mae plant neu bobl ifanc yn fwyaf tebygol o ymateb iddynt, ac o ran gweithio gydag asiantaethau i gynllunio gofal a chymorth ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Ymyrraeth gynnar, ymarfer dargyfeiriol a dull adferol o ran creu amgylcheddau wedi'u seilio ar berthnasoedd, parch, cynwysoldeb, tegwch a goddefgarwch.

24. Mae ethos rhianta corfforaethol cryf yn cydnabod nad cadw plant yn ddiogel yw unig nod y system gofal – mae'r system yn ymwneud ag atal, hyrwyddo adferiad, cadernid a llesiant hefyd. Mae'n ofynnol i rieni corfforaethol sicrhau bod gwaith ledled gofal cymdeithasol, darparwyr lleoliadau, lleoliadau addysg, gwasanaethau iechyd, yr heddlu a phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill, yn atal unrhyw droseddoli diangen.
25. Mae plant mudol a phlant sy'n ceisio lloches, sydd ar eu pen eu hunain ac sydd â phrofiad o fod mewn gofal, yn arbennig o agored i niwed pe baent yn mynd ar goll o'u lleoliad gofal. Nid yn unig maent mewn perygl o ddioddef camfantais a niwed, ond maent hefyd yn wynebu risg uwch o gael eu cymell i droseddu, yn cynnwys eu radicaleiddio. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn pennu dulliau arbennig o ddiogelu plant, ac mae Cymru wedi mabwysiadu'r dulliau hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyngor a chymorth ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, a hefyd nodir beth yw eu hawliau – gweler [Plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches: canllawiau i weithwyr proffesiynol | LLYW.CYMRU](#) a [Plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches: pecyn cymorth asesu oedran | LLYW.CYMRU](#).
26. Dylai goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol ac ymateb cyson i blant ac oedolion ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ledled asiantaethau ystyried y cwestiwn “*A fyddai ymddygiad o'r fath yn arwain at arestio'r plentyn/oedolyn ifanc pe bai'n byw gyda'i deulu?*”

Gweithredu

27. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i asiantaethau a phartneriaethau perthnasol ystyried sut gellir mynd ati yn y ffordd orau i weithredu'r dull a bennir yn y protocol hwn, mewn modd a fydd yn effeithio ar ymarfer, yn atal troseddoli pa bryd bynnag y bo modd, ac yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau i blant, pobl ifanc ac oedolion ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, fel y gallant fwynhau llesiant da a gwireddu eu hawliau.
28. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid i ystyried a chytuno ar gamau y gellir eu cymryd ar lefel genedlaethol er mwyn cynorthwyo i roi'r protocol hwn ar waith yn effeithiol.

1. Hyrwyddo hawliau a rhoi llais i blant a phobl ifanc

29. Wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â phlant mewn gofal a phlant a gaiff eu lletya, mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau cyffredinol i roi sylw dyledus i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, fel y nodir yn adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
30. Rhaid i unigolyn sy'n arfer unrhyw swyddogaeth o dan Ran 6¹³ o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 roi sylw dyledus i'r ddyletswyddau cyffredinol a nodir yn adran 6 o'r Ddeddf. Golyga hyn fod yn rhaid i bawb sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas â phlant mewn gofal neu blant a gaiff eu lletya, neu mewn perthynas â phlant sydd yn gadael/wedi gadael gofal, wneud y canlynol:
- canfod barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn neu'r person ifanc, a rhoi ystyriaeth iddynt, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol;
 - ystyried pa mor bwysig yw hyrwyddo a pharchu urddas y plentyn neu'r person ifanc;
 - ystyried nodweddion, diwylliant a chredoau'r plentyn neu'r person ifanc (yn cynnwys, er enghraifft, iaith);
 - ystyried pa mor bwysig yw rhoi cymorth priodol er mwyn galluogi plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arno (i'r graddau y bo hynny'n briodol yn yr amgylchiadau, yn arbennig pan fo gallu'r plentyn neu'r person ifanc i gyfathrebu wedi'i gyfyngu am unrhyw reswm).
31. Nod dull plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn yw atal troseddoli plant (unigolion o dan 18 oed) yn ddiangen, ynghyd â'u hatal rhag troseddu yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys rhoi llais i blant a phobl ifanc. Mae'r [Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Plismona Plant a Phobl Ifanc \(safe4me.co.uk\)](#) yn nodi y dylid trin plant fel plant yn gyntaf ym mhob achos.¹⁴
32. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi llunio fframwaith ar gyfer gweithio gyda phlant. Mae'r fframwaith hwn wedi'i seilio ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sef: [Y Ffordd Gywir – Dull Hawliau Plant – Comisiynydd Plant Cymru \(complantcymru.org.uk\)](#) a [Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – Comisiynydd Plant Cymru \(complantcymru.org.uk\)](#)
33. Mae gwrando ar lais plant a phobl ifanc, ynghyd â dysgu yn ei sgil a gweithredu ar ei sail, yn hanfodol er mwyn cael polisïau ac ymarfer effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'w phartneriaid annog plant ac oedolion ifanc â phrofiad o fod mewn gofal i gyfrannu at weithredu trefniadau lleol ar gyfer cyflawni'r protocol hwn. Mae hyn yn cynnwys ceisio'u barn ynglŷn â datblygu neu gomisiynu gwasanaethau i ategu nodau'r protocol hwn yn lleol neu'n rhanbarthol.
34. Mae gan blant hawl i eiriolaeth ar ffurf cynnig gweithredol¹⁵ gan Eiriolwr

Proffesiynol Annibynnol pe baent yn mynd i ofal neu'n destun ymholiadau diogelu plant a fydd yn arwain at Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant. Caiff y 'cynnig gweithredol' ei wneud gan y Gwasanaeth Eirioli yn uniongyrchol i'r plentyn. Mae 'cynnig gweithredol' yn golygu rhannu gwybodaeth am hawlogaeth a hawl statudol plentyn mewn amgylchiadau arbennig i gael cymorth gan Wasanaeth Eirioli Proffesiynol Annibynnol. Mae'r wybodaeth y dylid ei rhannu gyda'r plant yn cynnwys esboniad o rôl Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol.

35. Mae canllawiau ar Reoliad 29 *Canllawiau Statudol i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ynghylch bodloni'r rheoliadau safonau gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau cartrefi gofal, Gwasanaethau cymorth cartref, Gwasanaethau llety diogel, a Gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd*¹⁶ yn nodi y dylai staff, fel rhan o'u rhaglen sefydlu, gael hyfforddiant ar gymorth ymddygiad sy'n berthnasol i'w rôl er mwyn sicrhau mai dim ond mewn ffordd ragweithiol, a phan fo hynny'n gwbl angenrheidiol, y defnyddir unrhyw ddulliau rheoli neu atal, a hynny yn unol â'r canllawiau cenedlaethol cyfredol. Mae canllawiau cenedlaethol cyfredol yn pennu disgwyliadau ar gyfer dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar y plentyn/unigolyn a dull seiliedig ar gymorth ymddygiad cadarnhaol er mwyn lleihau arferion cyfyngol¹⁷, yn unol â hawliau dynol. Bydd y dull hwn hefyd yn cyfrannu at leihau digwyddiadau a all arwain at droseddoli plant a phobl ifanc.
36. Ymhellach, mae'r canllawiau'n mynnu y dylai darparwyr gwasanaethau roi dull cadarnhaol ac adeiladol ar waith er mwyn cefnogi ymddygiad unigolion. Dylai unrhyw strategaeth neu fesur a roddir ar waith i gefnogi ymddygiad yr unigolyn gyd-fynd â'r dasg o ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn ynghyd â llesiant unigolion eraill y rhoddir gofal a chymorth iddynt.
37. Mae canllawiau ar Reoliad 22 *Canllawiau Statudol Gwasanaethau Maethu Mae'r canllawiau statudol hyn yn ymwneud â Rhannau 2 i 16 o Reoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2019*,¹⁸ yn cynnwys cyngor tebyg – sef y dylai darparwyr gwasanaethau wneud yn siŵr bod trefniadau ar waith fel y gellir sicrhau'r canlynol pa bryd bynnag y bydd rhieni maeth yn defnyddio dulliau rheoli neu atal:
- bod modd i'r darparwyr gadarnhau y defnyddir y dull rheoli neu atal fel rhan o ddull rhagweithiol ar gyfer cefnogi ymddygiad;
 - ei fod yn gymesur â risg y niwed a difrifoldeb y niwed hwnnw i'r plentyn sy'n cael gofal a chymorth neu i unigolyn arall;
 - ei fod yn ystyried yr asesiad o anghenion y plentyn;
 - ei fod yn dilyn deddfwriaethau a chanllawiau cyfredol.

Mae canllawiau cenedlaethol cyfredol yn pennu disgwyliadau ar gyfer dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar y plentyn/unigolyn a dull seiliedig ar gymorth ymddygiad cadarnhaol, er mwyn lleihau arferion cyfyngol,¹⁹ yn unol â hawliau dynol. Bydd y dull hwn hefyd yn cyfrannu at leihau digwyddiadau a all arwain

at droseddoli plant a phobl ifanc.

38. Ymhellach, mae'r canllawiau'n mynnu y dylai darparwyr Gwasanaethau sicrhau bod rhieni maeth yn rhoi dull cadarnhaol ac adeiladol ar waith er mwyn cefnogi ymddygiad plant. Dylai unrhyw ddull a roddir ar waith i gefnogi ymddygiad y plentyn gyd-fynd â'r dasg o ddiwallu anghenion gofal a chymorth y plentyn ynghyd â llesiant aelodau eraill o aelwyd y rhieni maeth y gallai'r lleoliad effeithio arnynt.

2. Beth mae hyn yn ei olygu wrth ymarfer

39. Bydd nifer o blant, pobl ifanc ac oedolion ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi dioddef trawma a/neu gamdriniaeth cyn mynd i ofal. Bydd y bobl ifanc hynny a ddioddefodd gamdriniaeth trwy gyfrwng camfanteisio rhywiol ar blant neu gamfanteisio troseddol ar blant, er enghraifft, yn dioddef y trawma ychwanegol sydd ynghlwm wrth gamdriniaeth emosiynol, seicolegol, gorfforol a/neu rywiol. Byddant wedi dioddef sawl camdriniaeth a bydd eu hymddiriedaeth wedi cael ei chwalu nifer o weithiau.
40. Gall y profiadau hyn effeithio ar y ffyrdd y bydd plant a phobl ifanc yn ymddwyn ac yn ymgysylltu ag eraill. Mae'r ffaith y gall plant ymddangos yn anghydweithredol, yn ymosodol ac yn amharod i ymgysylltu,²⁰ a'r ffaith y gallant ymddangos fel pe baent yn 'cymryd risgiau', yn golygu y cânt eu camddeall a'u gweld mewn goleuni negyddol gan ymarferwyr. Mae plant yn gallu ymddwyn mewn modd sydd, ym marn oedolion, yn 'berylus', a gwnânt hynny fel ffordd o ymdopi ac arfer rhywfaint o reolaeth.²¹ Mewn ymgynghoriad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru,²² dywedodd y plant fod ymarferwyr o dro i dro yn eu beirniadu, yn eu beio neu'n eu 'brandio'.
41. Rhaid i'r ffyrdd a ddefnyddiwn i ymateb i blant ac oedolion ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal gael eu llywio gan ddealltwriaeth o gyd-destun llawn eu bywydau. Mae'r dasg o sefydlu ymddiriedaeth gyda phlentyn a ddioddefodd siomedigaethau yn y gorffennol, neu a niweidiwyd gan oedolion, yn mynnu ac yn haeddu amser er mwyn meithrin perthynas gyda'r plentyn.
42. Mae deddfwriaeth a pholisi Llywodraeth Cymru yn ceisio hyrwyddo dull seiliedig ar hawliau wrth ddelio â phlant ac oedolion. Mae hyn yn golygu cynnwys plant ac oedolion mewn penderfyniadau ynglŷn â'r cymorth a'r gwasanaethau a gânt a'r canlyniadau y dymunant eu gwireddu. Mae hefyd yn golygu cynllunio i ddiwallu anghenion mewn modd a fydd yn canolbwyntio ar y plentyn a'r unigolyn ac yn hyrwyddo llesiant unigolion a chyfleoedd iddynt wireddu eu hawliau.
43. Un o'r goblygiadau sydd ynghlwm wrth hyn yw'r angen i gynllunio gyda, ac ar gyfer, plant ac oedolion er mwyn sicrhau bod mesurau ar waith i atal sefyllfaoedd arbennig rhag codi – er enghraifft, sefyllfaoedd pan fyddant yn ymddwyn mewn modd a ystyrir yn heriol a lle bydd eu hymddygiad yn gwaethygu nes arwain at ddifrodi eiddo neu risg o niwed i'r unigolyn neu i eraill. Gall gwybodaeth gan bobl bwysig ym mywyd yr unigolyn helpu i lywio'r gwaith o gynllunio gofal a chymorth yn hyn o beth.

44. Wrth fynd ati i gynllunio mewn modd sy'n canolbwyntio ar y plentyn, dylid gwrandio ar blant a phobl ifanc a chanfod beth sy'n bwysig iddynt, er mwyn gwneud iddynt deimlo'n ddiogel a lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn mynd ar goll a/neu'n wynebu risg o ddioddef camdriniaeth a chamfanteisio.
45. Dylai'r dull o gynnwys y plant a'r bobl sy'n bwysig iddynt yn y gwaith o gynllunio gofal a chymorth fod yn ystyrllon ac yn briodol i oedran, gallu ac anghenion cyfathrebu'r unigolyn. Golyga hyn y dylid rhoi cymorth ychwanegol i rai plant trwy gyfrwng eiriolwr²³ er mwyn sicrhau y bydd eu barn yn cael ei chlywed. Wrth drafod y cynllun gofal a chymorth gyda'r plant, dylid rhannu gwybodaeth am yr amcanion a nodir yn y Protocol Cymru Gyfan hwn a'r ymrwymiad i osgoi troseddoli pa bryd bynnag y bo modd.
46. Ceir tystiolaeth nad yw dibynnu'n ormodol ar offer asesu risg arbenigol wastad yn ategu ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn, ac y gall yr offer hyn amharu ar farn broffesiynol.²⁴ Wrth ddefnyddio offer asesu risg, yr unig beth y dylent ei wneud yw llywio asesiad ehangach o anghenion gofal a chymorth. Ni ddylai'r broses esgor ar gyfarfodydd lle canolbwyntir ar asesu'r risg a lleihau'r sgôr risg, heb ystyried cynlluniau gofal a chymorth ehangach i gynnal newid a chefnogi llesiant mewn modd sy'n canolbwyntio ar y plentyn.
47. O ran arferion cyfyngol, fel ataliaeth neu arwahanu, dim ond pan fetho popeth arall y dylid eu defnyddio er mwyn atal niwed i'r unigolion neu i eraill, yn unol â'r disgwyliadau a nodir yn y [Fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol | LLYW.CYMRU](#). O safbwynt cynlluniau sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'r unigolyn a dulliau ymddygiad cadarnhaol, bydd y cyngor a nodir yn y Fframwaith hwn yn ategu ymarfer a fydd hefyd yn lleihau digwyddiadau a allai beri i'r plentyn neu'r person ifanc ddod i gysylltiad â'r heddlu.
48. Pe bai rhywbeth yn digwydd, pa bryd bynnag y bo modd dylid rhoi amser i'r plentyn dawelu; pe bai'r plentyn wedi cynhyrfu, dylid rhoi amser iddo siarad yng ngŵydd ymarferydd sy'n gyfarwydd iddo ac y gall ymddiried ynddo, neu siarad yn breifat os mai dyna ei ddymuniad, er mwyn iddo allu rhannu ei adroddiad am yr hyn a ddigwyddodd. Pa bryd bynnag y bo'n ymarferol ac yn bosibl, dylai'r plentyn gael dewis pwy fydd yn bresennol pan fydd yn rhannu ei adroddiad am y digwyddiad. Gall fod yn gyfle pwysig i ddeall safbwynt y plentyn neu'r person ifanc – o ran llywio penderfyniadau a wneir ynglŷn â sut i ymateb i'w les pennaf a hefyd o ran osgoi troseddoli pa bryd bynnag y bo modd.
49. Mae ceisio barn plant ar ôl rhyw ddigwyddiad, yn cynnwys ble daethant i gysylltiad ag asiantaethau cyfiawnder troseddol, yn rhan bwysig o adolygu penderfyniadau ynglŷn â'u gofal a'u cymorth, er mwyn lleihau digwyddiadau yn y dyfodol. Pa bryd bynnag y bo modd, dylid cynnal y drafodaeth hon yn absenoldeb y rhai eraill a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad.
50. Mae strategaethau rhagweithiol yn cynnwys cyflwyno newidiadau amgylcheddol er mwyn gwneud yr amgylchedd yn fwy addas i'r plentyn neu'r person ifanc, ynghyd ag addysgu sgiliau neu ymddygiadau newydd er mwyn

lleihau'r tebygolrwydd y bydd y plentyn neu'r person ifanc yn ymddwyn mewn modd heriol.

51. Mae strategaethau ymatebol yn cynnwys tynnu sylw'r plentyn/person ifanc, tawelu'r sefyllfa, gwranddo gweithredol, neu dynnu'n ôl. Gall y strategaethau hyn fod yn rhan ddefnyddiol o ddull gweithredol ar gyfer llywio cynlluniau gofal a chymorth er mwyn lleihau digwyddiadau a allai beri i rywun alw'r heddlu neu beri i'r plentyn neu'r person ifanc redeg i ffwrdd a'i roi ei hun mewn perygl.
52. Yn sgil ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda phlant a phobl ifanc²⁵ â phrofiad o fod mewn gofal, gwelwyd y dylai'r heddlu ymweld yn rheolaidd â lleoliadau – yn hytrach na mynd yno'n unig ar ôl i rywbeth fynd o'i le, dylent fynd yno i feithrin perthynas gyda'r plant a'r bobl ifanc, ac er mwyn i'r naill allu deall y llall yn well.

[Gwiriwch eich Ffordd o Feddwl – Adnoddau i ategu ymarfer diogelu gyda phobl ifanc, i'w defnyddio gan bawb sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac yn gofalu amdanynt](#)

Mae'r adnoddau a'r deunyddiau hyn wedi'u datblygu ar sail ymchwil a gweithio mewn partneriaeth gyda phobl ifanc, gofalywyr maeth, yn ogystal â gweithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig. Fe'u dyluniwyd i'w defnyddio gan bawb sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac yn gofalu amdanynt. Maent yn rhannu negeseuon gan bobl ifanc sydd â phrofiadau o gamfanteisio a niwed, am eu profiad o ddiogelu a chefnogi. Daw'r negeseuon hefyd gan y rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac yn gofalu amdanynt, am y gefnogaeth sydd ei hangen a rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â'u diogelu. Mae'r holl adnoddau wedi'u dylunio i'ch helpu chi i 'ystyried eich ffordd o feddwl' am faterion allweddol wrth ddiogelu pobl ifanc rhag camfanteisio, niwed ac enghreifftiau eraill o gamdriniaeth, fel: asesu a rheoli risg, ymateb i blant a phobl ifanc, ymarfer amlasiantaethol, pwysigrwydd iaith, a dulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

3. Ymateb i ddigwyddiadau

53. O dro i dro, bydd achosion yn digwydd am fod ymarferwyr yn rhoi rheolau a sancsiynau ar waith gyda'r bwriad o gadw plant yn ddiogel a rheoli risgiau. Efallai y bydd plant yn ymateb i'r rheolau a'r sancsiynau hyn mewn ffordd a fydd yn dwysáu'r sefyllfa – efallai y bydd eu hymddygiad yn herio pobl eraill, neu efallai y bydd rhywun yn ymateb i ymddygiad 'peryglus' y plant trwy alw'r heddlu.
54. Wrth ymateb i ddigwyddiad, dylai ymarferwyr sicrhau eu bod yn gofyn i'r plentyn gyflwyno'i adroddiad ei hun am yr hyn a ddigwyddodd. Mewn rhai sefyllfaoedd, efallai y bydd angen cymryd camau ar frys i sicrhau diogelwch y plentyn neu ddiogelwch pobl eraill.
55. Fel rhan o gynlluniau gofal a chymorth pob plentyn, dylid sicrhau bod asesiadau a chynlluniau trwyadl ar waith fel y gellir ymateb i ymddygiad plant unigol. Er mwyn tawelu'r sefyllfa, bydd angen i ymarferwyr gynnal asesiadau cyflym a strwythuredig o'r risgiau uniongyrchol a'r risgiau y gellir eu rhagweld, gan ystyried cynlluniau gofal, asesiadau risg a chynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol ar gyfer y plentyn unigol.
56. Pe bai rhywbeth yn digwydd yn y lle mae'r plentyn yn byw, dylai'r gofawyr geisio rheoli'r plentyn mewn modd sy'n seiliedig ar yr wybodaeth a nodir yng nghynllun gofal a chymorth yr unigolyn, trwy weithredu polisi ymddygiad cadarnhaol a thrwy ddefnyddio dulliau datrys mewnol fel dulliau adferol, heb alw'r heddlu pa bryd bynnag y bo hynny'n bosibl ac yn briodol.
57. Rhaid i'r gofawyr ystyried natur a difrifoldeb y digwyddiad cyn penderfynu sut i ymateb a chyn penderfynu a ddylid galw'r heddlu. Dylid gwneud hyn yn unol â pholisïau ymddygiad cadarnhaol y lleoliad. Dylai polisïau ymddygiad cadarnhaol gynnwys 'cyfnod pwylo' er mwyn rhoi cyfle i'r ddau barti fyfyrto, oni bai bod y digwyddiad mor ddifrifol nes bod yn rhaid cymryd camau'n ddi-oed.
58. Ni ddylid defnyddio'r heddlu i reoli ymddygiad neu i ddelio â materion y byddai rhieni rhesymol yn ymdrin â nhw heb alw'r heddlu. Dylid ystyried bob amser a fyddai rhywun yn galw'r heddlu pe bai'r achos wedi digwydd mewn lleoliad domestig. Bydd polisïau cymorth ymddygiad cadarnhaol, ynghyd â hyfforddiant i ofalwyr a staff ynglŷn â sut i roi'r polisïau hyn ar waith, yn cyfrannu at leihau digwyddiadau pan fydd plant yn ymddwyn mewn modd sy'n herio pobl eraill.
59. Wrth ymateb i drosedd/sefyllfa uniongyrchol, dylid ymdrechu i ddeall yr amgylchiadau llawn a chanfod a yw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddioddefwr. Pa bryd bynnag y bo modd, dylid ymdrechu i ddeall y sefyllfa'n llwyr mewn man lle bydd y plentyn neu'r oedolyn ifanc yn teimlo'n ddiogel ac yn teimlo ei fod yn cael cefnogaeth.²⁶
60. Disgwylir i swyddogion awdurdodau lleol, gweithwyr gofal preswyl neu

rieni maeth gynllunio gyda/ar gyfer plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal mewn modd a fydd yn canolbwyntio ar y plentyn ac mewn modd a fydd yn diwallu eu hanghenion ac yn lleihau'r risg y bydd unrhyw beth yn digwydd. Pe bai rhywbeth yn digwydd, dylai gofalywyr geisio rheoli'r digwyddiad yn y lleoliad trwy ddefnyddio dulliau datrys mewnol, fel dulliau adferol.

61. Pan fo hyn yn amhosibl oherwydd difrifoldeb y sefyllfa neu oherwydd pryder ynglŷn â diogelwch, dylai'r heddlu ystyried defnyddio pwerau disgresiwn i roi dull datrys anffurfiol ar waith (fel dull datrys cymunedol). Un arfer da wrth ddefnyddio gweithdrefnau o'r fath yw cynnwys 'cyfnod pwylo' a neilltuo digon o amser er mwyn i weithwyr proffesiynol allweddol allu llywio penderfyniadau (e.e. rheolwr cofrestredig a gweithiwr allweddol, rhieni maeth, gweithiwr cymdeithasol neu weithwyr cyswllt yr heddlu ar gyfer lleoliadau preswyl).
62. Trwy ddeall bod yna bosibilrwydd y bydd manylion y plentyn yn cael eu cadw ar gronfeydd data'r heddlu – manylion y gellir chwilio amdanynt a'u datgelu, o bosibl, pan fydd y plentyn yn oedolyn – bydd modd i'r bobl sy'n gofalu am blant wneud penderfyniadau cytbwys ynglŷn â chynnwys yr heddlu. Mae hi'n bwysig i'r holl asiantaethau ac i bawb sy'n gofalu am blant ddeall sut byddant yn ymateb i ddigwyddiadau, a pha un a ddylid ystyried ymatebion amgen e.e. cyfarfod adferol.

4. Oedolion ifanc â phrofiad o fod mewn gofal (18 oed a hŷn)

63. Mae [Rhan 6 o'r Cod Ymarfer ar gyfer Plant sy'n Derbyng Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya \(llyw.cymru\)](#) o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi cymorth ar gyfer pobl ifanc 16-17 oed sy'n parhau i dderbyn gofal ('person ifanc categori 1'). Mae'n disgrifio fframwaith cynhwysfawr yn ymwneud ag asesu, cynllunio gofal a chymorth, ymyrraeth ac adolygu achosion gan awdurdodau lleol i baratoi pobl ifanc 16 a 17 oed ar gyfer amser pan na fyddant yn derbyn gofal.
64. Pan fo plentyn sydd mewn gofal ar fin cyrraedd 16 oed, rhaid i'r awdurdod lleol baratoi cynllun llwybr. Bydd y cynllun hwn yn nodi'r camau y bydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol, gofalwr y plentyn, y plentyn, y teulu biolegol a phartion dynodedig eraill eu cymryd er mwyn cynorthwyo'r plentyn i bontio'n llwyddiannus o ofal i fyd oedolion. Bydd y cynllun llwybr yn adeiladu ar Gynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) presennol y plentyn, a ymgorfforir yn y cynllun llwybr.
65. Mae Rhan 6 o'r Cod Ymarfer hefyd yn nodi dyletswyddau awdurdodau lleol o ran cynorthwyo'r plant a'r oedolion ifanc hynny nad ydynt bellach yn derbyn gofal. Mae'r rhain yn cynnwys plant o dan 18 oed sydd wedi gadael gofal (y cyfeirir atynt fel 'person ifanc categori 2' yn y Ddeddf), pobl ifanc 18 oed a hŷn sydd wedi gadael gofal ('person ifanc categori 3'), a phobl ifanc sy'n ailgysylltu â gofal yn 21 oed ar gyfer addysg a hyfforddiant ('person ifanc categori 4'). Ymdrinnir hefyd â phobl ifanc a adawodd ofal o dan Orchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig ('person ifanc categori 5'), a phlant eraill a arferai dderbyn gofal neu a arferai gael eu lletya ac sydd, o bosibl, â hawl i gael cyngor a chymorth ('person ifanc categori 6').
66. Mae Rhan 6 o'r cod yn nodi cyfrifoldebau awdurdodau lleol o ran trefniadau byw ôl-18 ar gyfer oedolion ifanc mewn gofal maeth. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu cynlluniau 'Pan Fydda i'n Barod', yn unol â gofynion y cod. Trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' yw'r term a ddefnyddir yng Nghymru ar gyfer trefniant lle bydd oedolyn ifanc sydd mewn gofal maeth yn aros gyda'i ofalwr maeth blaenorol ar ôl iddo gyrraedd 18 oed²⁷.
67. Fodd bynnag, rhaid i nifer o oedolion ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal barhau i bontio'n gyflym i annibyniaeth. Ymhellach rhaid i nifer o oedolion ifanc groesi i fyd oedolion tra'n ymdopi ag effaith barhaus y trawma a'r profiadau niweidiol a ddaeth i'w rhan yn ystod eu plentyndod. Bydd hyn yn wahanol i bob unigolyn, ond ceir tystiolaeth glir y gall profiadau plentyndod esgor ar heriau ychwanegol i rai o ran mwynhau llesiant pan fônt yn oedolion.²⁸
68. Dyna pam mae'r ddeddfwriaeth a'r Cod Ymarfer yn nodi dyletswyddau awdurdodau lleol i gynllunio gyda phobl ifanc ar gyfer yr adeg y byddant yn gadael gofal, ynghyd â'u cynorthwyo wrth iddynt ddatblygu'n oedolion ifanc. Ar ôl i'r gofal a gaiff y plentyn ddod i ben, os yw'r plentyn yn "blentyn

perthnasol” neu’n “gyn-blentyn perthnasol” rhaid i’r awdurdod lleol benodi Cynghorydd Personol i’w gynorthwyo hyd nes y bydd yn 21 oed, neu hyd nes y bydd yn 25 oed os gofynnir yn benodol am hynny. Bydd y Cynghorydd Personol yn hollbwysig o ran sicrhau bod y sawl sy’n gadael gofal yn cael y cymorth personol iawn.

69. Dylai gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdodau Lleol ar gyfer oedolion ifanc â phrofiad o dderbyn gofal ddatblygu a chynnal perthnasoedd gweithio adeiladol gyda’r gwasanaethau cyfiawnder troseddol er mwyn helpu cynghorwyr personol a phartneriaid eraill i greu’r cysylltiadau iawn i gynorthwyo’r oedolion ifanc hyn, yn cynnwys defnyddio cynlluniau llwybr i’w dargyfeirio oddi wrth droseddu, eu cynorthwyo os ydynt yn trosglwyddo o ddwylo Tîm Troseddwyr Ifanc i oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf, eu cynorthwyo os ydynt yn y ddalfa, neu eu goruchwyllo a’u cynorthwyo yn y gymuned ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o’r ddalfa fel rhan o’u cynllun ailsefydlu.

5. Penderfyniadau'r heddlu wrth ymateb i ddigwyddiadau'n ymwneud â phlant, pobl ifanc ac oedolion ifanc â phrofiad o dderbyn gofal

70. Pan fo'n amhosibl osgoi cynnwys yr heddlu oherwydd difrifoldeb y sefyllfa neu oherwydd pryder ynglŷn â diogelwch, dylai'r heddlu ystyried defnyddio pwerau disgrisiwn i roi dull datrys anffurfiol ar waith (fel dull datrys cymunedol).
71. Pan fo'n ofynnol i'r heddlu gofnodi digwyddiad fel trosedd, ond pan fônt o'r farn na fyddai cymryd camau pellach (ac eithrio diogelu) er budd y cyhoedd, mae ganddynt ddisgrisiwn i ddatrys yr adroddiad yn briodol trwy ddefnyddio Canlyniad 21 Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yr Heddlu. Yn ôl Canlyniad 21: *Further action, resulting from the crime report, which could provide evidence sufficient to support formal action being taken against the suspect is not in the public interest – Police decision.* Ni fydd hyn, felly, yn cael ei gofnodi fel sancsiwn gan yr heddlu ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu.
72. Ni ddylid mynd â phlant (o dan 18 oed) i orsafoedd yr heddlu i ddatrys materion y gellir ymdrin â nhw trwy ddefnyddio dull amgen. Fodd bynnag, mewn achosion pan fernir bod hyn yn hollol angenrheidiol, dylai'r plant gael cefnogaeth ddigonol gan eu lleoliad gofal neu eu hawdurdod lleol cyfrifol.
73. Ymhellach, dylai swyddogion yr heddlu, gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr ystyried beth fydd yn digwydd ar ôl i'r plentyn gael ei ryddhau o'r orsaf. Yr opsiynau yr adeg honno yw: rhyddhau'r plentyn heb ei gyhuddo / dim camau pellach; ei gyhuddo o gyflawni trosedd; ei ryddhau o dan ymchwiliad; ei roi ar fechnïaeth neu ei atgyfeirio at y Tîm Troseddwyr Ifanc perthnasol er mwyn i banel dargyfeirio allu ystyried y mater.
74. Pan fydd plentyn neu oedolyn ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, disgwylir i'r awdurdod lleol cyfrifol gael gwybod am hynny a chyfrannu at y penderfyniadau.
75. Mewn amgylchiadau pan fo dull datrys cymunedol yn amhriodol, bydd yr heddlu'n atgyfeirio'r achos at y Tîm Troseddwyr Ifanc (plant 10-17 oed). Yna, bydd y Tîm Troseddwyr Ifanc, trwy gyfrwng proses benderfynu amlasiantaethol gyda'r heddlu, yn cytuno ar y dull gweithredu mwyaf addas, yn cynnwys dargyfeirio'r plentyn oddi wrth droseddoli/erlyniad.
76. Bwriad paneli dargyfeirio amlasiantaethol yw ystyried a gwneud penderfyniadau cytbwys ar sail asesiad y Tîm Troseddwyr Ifanc o anghenion y plentyn, er mwyn gweld beth fydd y canlyniad mwyaf addas. Bydd y broses yn ystyried budd pennaf y plentyn a'r dioddefwyr, a'r bwriad yw diogelu plant a allai fod yn agored i niwed, ynghyd â diogelu'r cyhoedd.
77. Dylai'r broses benderfynu ystyried beth yw'r datrysiad gorau ar gyfer y plentyn; pa help a chymorth mae'r plentyn ei angen; a chan ddibynnu ar

y datrysiad, a fyddai ymyrraeth adferol yn briodol. Dylid ystyried dymuniadau'r rhai a ddioddefodd niwed, a hefyd dylid ceisio ymdrin ag anghenion y plentyn er mwyn lleihau'r risg y bydd yn aildroseddu.

6. Cynorthwyo plant ac oedolion ifanc â phrofiad o fod mewn gofal trwy'r system cyfiawnder troseddol, a lleihau troseddu

78. Fe fydd yna achosion pan gaiff plant ac oedolion ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal eu cyhuddo o gyflawni trosedd. Rhaid i'r awdurdod cartref sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn cael cynrychiolaeth gyfreithiol gan gyfreithiwr sy'n arbenigo mewn cyfiawnder ieuencid a'i fod yn cael cefnogaeth gan Oedolyn Priodol tra bydd yn yr orsaf heddlu, yn ddelfrydol gan oedolyn sy'n ei adnabod yn dda. Dylai hyn gynnwys mesurau i sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn deall yr hyn sy'n digwydd iddo.
79. Yn achos oedolion ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal ac a ddaw i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, dylai'r holl asiantaethau sicrhau bod yr oedolion ifanc hyn yn ymwybodol o'u hawliau i gael cynrychiolaeth gyfreithiol a/neu gymorth eirioli.
80. Dylai awdurdodau lleol esbonio i blant mewn gofal a phlant sy'n gadael gofal yr hyn y dylent ei wneud a'i ddweud pe baent yn dod i gysylltiad â'r heddlu neu asiantaethau cyfiawnder troseddol. Yna, bydd modd hysbysu'r gwasanaethau cymorth, yn cynnwys eu Cyngorwr Personol, a'u cynnwys wrth benderfynu ar achosion.
81. Pan fônt wedi cytuno i'r trefniant hysbysu, dylai'r heddlu a'r asiantaethau cyfiawnder troseddol geisio annog cyn-awdurdod cyfrifol y sawl sy'n gadael gofal a/neu ei rwydwaith cymorth i gymryd rhan yn y penderfyniadau, ni waeth pa un a fydd y cysylltiad â'r heddlu wedi digwydd oddi mewn ynteu oddi allan i'r awdurdod hwnnw.
82. Yn achos oedolion ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal ac a ddaw i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, dylai'r holl asiantaethau sicrhau bod yr oedolion ifanc hyn yn ymwybodol o'u hawliau i gael cynrychiolaeth gyfreithiol a/neu gymorth eirioli.
83. Ni ddylid cadw plant yn yr orsaf heddlu yn hwy na'r angen am nad oes cymorth a/neu le ar gael.
84. Pa bryd bynnag y bo modd, dylai asiantaethau lleol/partneriaid y protocol ymrwmo i *Ganllawiau Cymru ar reoli a throsglwyddo plant a phobl ifanc sydd yng ngofal yr Heddlu a'r Awdurdodau Lleol o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984*²⁹ a cheisio osgoi cadw plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal mewn celloedd dros nos.
85. Wrth benderfynu a ddylid caniatáu mechnïaeth, ai peidio, mae'n bwysig iddynt beidio â dioddef anfantais oherwydd eu statws gofal/cyn-statws gofal. Ymhellach, yn ôl pob tebyg ystyrir pan un a allant ddychwelyd i'w man preswyllo, gan ddibynnu ar natur y drosedd a gyflawnwyd.
86. Pe bai'r heddlu yn cynnig y dylid gwrthod mechnïaeth, dylid gwneud pob

ymdrech i weld a ellir darparu cymorth a goruchwyliaeth er mwyn rhwystro hyn rhag digwydd, a dod o hyd i lety amgen pe bai angen. Mae gan yr Heddlu ddyletswydd i gyflwyno'r cais i'r awdurdod lleol ac mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i'w ystyried.

87. Pan fo'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn ifanc yn gwadu ei fod wedi cyflawni trosedd, neu pan fo'r drosedd yn ddigon difrifol i ystyried ei erlyn, dylid mynd ati'n ofalus i bwysu a mesur amgylchiadau'r unigolyn ac amgylchiadau'r drosedd wrth benderfynu ai priodol yw cyhuddo neu erlyn yr unigolyn.²¹
88. Mae'r adran ar Ymddygiad mewn Cartrefi Plant yn y [Canllawiau ar Droseddwr Ifanc](#) gan [Wasanaeth Erlyn y Goron](#) yn cynnig ffordd ddefnyddiol o ystyried ffactorau gwaethybol a lliniarol wrth benderfynu ai priodol yw erlyn plant â phrofiad o fod mewn gofal, ni waeth mewn sut fath o leoliad mae'r plant. Ond sylwer: canllawiau ar gyfer troseddau a gyflawnir mewn cartrefi gofal yn unig yw'r rhain.
89. Dylai unrhyw benderfyniad i gyhuddo ac erlyn plentyn neu oedolyn ifanc ystyried a yw'r hyn a wnaeth wedi deillio o gamfanteisio, masnachu pobl neu gaethwasiaeth fodern. Os yw'r plentyn neu'r oedolyn ifanc wedi dioddef yn sgil masnachu pobl neu gaethwasiaeth fodern, dylid ystyried egwyddor 'dim erlyn' Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, a'i rhoi ar waith pan fo hynny'n briodol. Ymhellach, dylai'r awdurdod lleol fod yn rhagweithiol o ran cynorthwyo Gwasanaeth Erlyn y Goron i wneud penderfyniadau cytbwys wrth ystyried achosion sy'n ymwneud â phlant â phrofiad o fod mewn gofal.
90. Pe bai plentyn neu oedolyn ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael dedfryd gymunedol, dylai ei ofalwyr, ei weithiwr cymdeithasol neu ei gynghorydd personol, y Tîm Troseddwr Ifanc neu reolwr achosion y gwasanaeth prawf weithio'n agos gyda'i gilydd, ynghyd â rhannu gwybodaeth ac egluro'u rolau a'u cyfrifoldebau er mwyn sicrhau y bydd y plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn ifanc yn cael y cymorth angenrheidiol.
91. Pe bai dedfryd o garchar yn debygol, dylai'r gofalwyr, gweithiwr y Tîm Troseddwr Ifanc, y swyddog prawf, y gweithiwr cymdeithasol neu'r cynghorydd personol weithio gyda'i gilydd i baratoi'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn ifanc, gan esbonio'r hyn fydd yn digwydd a pha gymorth fydd ar gael iddo. Dylai gweithiwr y Tîm Troseddwr Ifanc neu'r swyddog prawf ofyn am unrhyw wybodaeth berthnasol gan y gweithiwr cymdeithasol/cynghorydd personol cyn llunio'r adroddiad cyn-dedfrydu.
92. Bwriad y ddogfen [Guidance for the joint working arrangements between Youth Offending Teams and Local Authority Children's Services for children in custody in Wales \(November 2020\) – Youth Justice Resource Hub \(yjresourcehub.uk\)](#) yw sicrhau y bydd staff Timau Troseddwr Ifanc a staff gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd wrth gyflawni eu dyletswyddau penodol tuag at blant a phobl ifanc, fel y

gellir diwallu eu hanghenion a'u cynorthwyo i ailintegreiddio ac ailsefydlu.

93. Mae'n bwysig dros ben sicrhau na fydd oedolion ifanc sy'n trosglwyddo o ddwylo'r Tîm Troseddwy'r Ifanc i oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf yn cael eu hanghofio. Nodir cyfrifoldebau'r asiantaethau yn [Egwyddorion a chanllawiau ar gyfer pontio o wasanaethau ieuencid i wasanaethau oedolion: Cymru – GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)
94. Mae Fframwaith sy'n ceisio cefnogi newid cadarnhaol ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o droseddu yng Nghymru (2018-2023)³⁰ yn nodi sut bydd y gwasanaeth Carchardai a'r gwasanaeth Prawf, trwy gydweithio â'r holl asiantaethau perthnasol, yn lleihau ymhellach nifer y bobl a ddaw'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol ac yn cynorthwyo troseddwy'r i beidio ag aildroseddu. Mae'r fframwaith yn cynnwys cyngor ynglŷn â chynorthwyo unigolion sy'n gadael gofal.
95. Ledled Cymru mae cynlluniau dargyfeirio 18+, a gomisiynwyd gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu ar y cyd â Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, bellach ar waith. Caiff oedolion sy'n bodloni'r meini prawf eu hatgyfeirio'n awtomatig at y cynllun ar ôl iddynt gyfaddef eu bod yn euog.

Rhan 11 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

96. Mae <https://llyw.cymru/anghenion-gofal-chymorth-cod-ymarfer-amrywiol-chyffredinol> o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi'r dyletswyddau a roddir ar awdurdodau lleol tuag at oedolion ag anghenion gofal a chymorth sydd mewn sefydliadau diogel yng Nghymru. Mae'r ddyletswydd hon yn bodoli ble bynnag y bo eu preswylfa arferol yng Nghymru neu yn rhywle arall cyn iddynt gael eu rhoi dan gadwad, a chyn i'r ffordd mae cyfrifoldebau presennol dros ofal a chymorth plant mewn sefydliadau diogel (boed dan gadwad yng Nghymru neu Loegr) gael ei newid.
97. Rhaid i'r awdurdod lleol cartref gyflawni ei ddyletswyddau tuag at blant sy'n derbyn gofal yn ystod cyfnod eu cadwad yn unol â gofynion Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015, a thuag at blant a arferai dderbyn gofal ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.
98. Rhaid i awdurdodau lleol barhau i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas ag adrannau 105 – 108 o Ddeddf 2014 (cadw mewn cysylltiad, cynghorwyr personol, asesiadau a chynlluniau llwybr, asesiadau a chynlluniau llwybr ar gyfer trefniadau byw ôl-18), ac mae'r adrannau hyn yn parhau i fod yn berthnasol i bobl ifanc categori 2 ac i bobl ifanc perthnasol yng nghategoriâu 5 a 6 yn ystod cyfnod eu cadwad.
99. Rhaid i'r awdurdod lleol gyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas ag

oedolion sy'n gadael gofal ac sydd mewn sefydliadau diogel yng Nghymru, ar yr adeg briodol. Caiff cyfrifoldebau'r awdurdod lleol tuag at unigolion sy'n gadael gofal eu gohirio pan na fydd gan yr awdurdod lleol unrhyw allu i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn ystod cyfnod cadwad y plentyn, ond dânt i rym drachefn ar ôl i'r unigolyn gael ei ryddhau. Tra caiff unigolion 18 oed a hŷn eu cadw mewn sefydliadau diogel, mae Adran 185(5) yn eithrio rhywfaint o'r cymorth y byddent wedi bod â hawl i'w gael fel arall.

100. Tra caiff oedolion 18 oed a hŷn sy'n gadael gofal (categori 3); unigolion sy'n gadael gofal ac sy'n ailgysylltu â gofal yn 21 oed ar gyfer addysg a hyfforddiant (categori 4); pobl ifanc a adawodd ofal o dan Orchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig (categori 5); a phlant eraill a arferai dderbyn gofal ac sydd, o bosibl â hawl i gael cyngor a chymorth (categori 6), eu cadw mewn sefydliadau diogel, nid oes ganddynt hawl i gael rhywfaint o'r cymorth y byddent wedi bod â hawl i'w gael fel arall yn unol â Rhan 6 o Ddeddf 2014. Yn ystod cyfnod eu cadwad, ni fydd hawliau o dan adrannau 110, 112, 114 ac 115 o Ddeddf 2014 yn berthnasol.
101. Yn achos pob plentyn sydd mewn gofal, dylai sefydliadau carcharu enwebu cynrychiolydd penodol i weithredu fel cyswllt gyda'r broses cynllunio gofal tra bydd y plentyn yn y ddalfa.
102. Dylai sefydliadau carcharu wneud popeth o fewn eu gallu i baratoi plant a phobl ifanc ar gyfer pontio'n ôl i'r gymuned, a chefnogi trefniadau pontio. Dylai'r gwaith o lunio cynlluniau adsefydlu gychwyn ar ddechrau'r cyfnod remandio neu ar ddechrau'r ddeddfryd, a dylid parhau i ganolbwyntio ar y mater hwn mewn cyfarfodydd cynllunio gofynnol tra bydd yr unigolyn yn y ddalfa. Dylai cynlluniau adsefydlu gynnwys dymuniadau a barn yr unigolyn, a dylid teilwra'r trefniadau ar sail ei anghenion unigol.
103. Ni ddylai plant, pobl ifanc nac oedolion ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ddiweddef unrhyw anfantais mewn perthynas â chael eu rhyddhau'n gynnar o gymharu â phlant eraill sydd yn y ddalfa. Gall eu rhyddhau'n gynnar, ynghyd â'u rhyddhau ar drwydded dros dro, eu hannog i ymddwyn yn dda ac i ymgysylltu â chynlluniau ailsefydlu, ac o'r herwydd dylid ystyried yr elfennau hyn pan fo modd.

Mae **cyfiawnder adferol** yn rhoi cyfle i ddioddefwyr gyfarfod â'r plentyn neu'r person ifanc a chyfathrebu ag ef, er mwyn esbonio gwir effaith y drosedd (os yw hynny'n briodol) – mae'n grymuso dioddefwyr trwy roi llais iddynt. Gall helpu plant a phobl ifanc i ddysgu ar sail eu camgymeriadau a'u helpu i ysgwyddo cyfrifoldeb a gwneud iawn am eu camymddwyn. Mae yna sawl math uniongyrchol ac anuniongyrchol o wneud iawn.

Yn y bôn, mae dull adferol yn golygu gweithio gydag unigolion sydd wedi troseddu er mwyn eu helpu i ddeall eu hanghenion eu hunain, dangos empathi tuag at bobl eraill, a thrwy hynny ddeall anghenion pobl eraill, a bydd yn eu galluogi i ddeall pa effaith a gafodd yn hyn a wnaethant. Gall hyn amrywio o ddulliau adferol anffurfiol cyffredin yn ymwneud â meithrin perthnasoedd i gynadleddau cyfiawnder adferol mwy ffurfiol.

Mae dulliau adferol yn ceisio creu amgylchedd lle bydd y naill yn ystyried y llall, gan anelu at ddatrys neu wneud iawn am niwed a gyflawnwyd. Dyma broses lle bydd y dioddefwr yn cael cyfle i'w fynegi ei hun a sôn am yr effaith a gafodd yr ymddygiad arno, a lle bydd y sawl sydd wedi troseddu yn cael cyfle i ysgwyddo cyfrifoldeb dros yr hyn a wnaeth. Mae'r chwe egwyddor ganlynol yn sail i ddulliau adferol:

Adfer – prif nod ymarfer adferol yw ymdrin â niwed a gwneud iawn am niwed.

Gwirfoddoliaeth – rhywbeth gwirfoddol yw cymryd rhan mewn prosesau adferol, ac mae'n seiliedig ar ddewis cytbwys.

Niwtraliaeth – mae prosesau adferol yn deg ac yn ddiuedd.

Diogelwch – mae'r prosesau a'r ymarfer yn anelu at sicrhau diogelwch yr holl gyfranogwyr a chreu lle diogel i fynegi teimladau a barn ynglŷn â'r niwed a achoswyd.

Hygyrchedd – mae prosesau adferol yn anwahaniaethol ac maent ar gael i bawb sydd wedi dioddef gwrthdaro neu niwed.

Parch – mae prosesau adferol yn parchu urddas yr holl gyfranogwyr a phawb sydd wedi dioddef gwrthdaro a niwed.

Er mwyn osgoi niwed ychwanegol, dylai gweithwyr proffesiynol ystyried yr effaith a gaiff prosesau adferol ar y plentyn neu'r person ifanc, gan gadw ei nodweddion unigol mewn cof, megis crefydd, diwylliant, neu fregusrwydd neu brofiadau unigol. Dylai'r plentyn neu'r person ifanc gael cyfle i siarad. Ni ddylid rhagdybio'n awtomatig mai'r plentyn neu'r person ifanc yn unig sydd ar fai am yr hyn a ddigwyddodd, a dylai gael cyfle i adrodd ei fersiwn ef o'r digwyddiadau.

-
- ¹ Baglivio, M; Wolf, K; Piquero, A. ac Epps, N. (2015) 'The Relationship between Adverse Childhood Experiences (ACE) and Juvenile Offending Trajectories in a Juvenile Offender Sample', *Journal of Criminal Justice Cyfrol 43*, Rhifyn 3, Mai-Mehfin 2015, Tudalennau 229-241.
- ² Cockbain, E; Brayley, H; Ashby, M (2014) *Not just a girl thing: A large-scale comparison of male and female users of child sexual exploitation services in the UK*. Barnardo's, Llundain.
- ³ Data cipolwg yn ymwneud â'r holl Wasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid ledled Cymru ar 1 Chwefror 2021.
- ⁴ [Lammy Review – GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk) [Review of the youth justice system - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)
- ⁵ [Plant mewn gofal awdurdodau lleol: cod ymarfer | LLYW.CYMRU](http://www.llyw.cymru)
- ⁶ [glasbrint-cyfiawnder-ieuenctid_0.pdf \(llyw.cymru\)](http://www.llyw.cymru) [Cefnogi pobl ifanc yn y system Gyfiawnder | LLYW.CYMRU](http://www.llyw.cymru)
- ⁷ [ynghlŷn ag – Ymwybyddiaeth o ACE Cymru](http://www.llyw.cymru)
- ⁸ [Hafan – Straen Trawmatig Cymru \(gig.cymru\)](http://www.gig.cymru)
- ⁹ [Rhaglen lywodraethu: diweddariad | LLYW.CYMRU](http://www.llyw.cymru)
- ¹⁰ Gweler tudalennau 4 a 10 y Rhaglen Lywodraethu.
- ¹¹ [Diogelu plant sy'n wynebu risg o gam-drin neu esgeulustod. | LLYW.CYMRU](http://www.llyw.cymru)
[Diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol | LLYW.CYMRU](http://www.llyw.cymru)
[Diogelu oedolion sy'n wynebu risg o gam-drin neu esgeulustod. | LLYW.CYMRU](http://www.llyw.cymru)
- ¹² [Fostering Wellbeing | The Fostering Network](http://www.fosteringnetwork.org)
- ¹³ [Plant mewn gofal awdurdodau lleol: cod ymarfer | LLYW.CYMRU](http://www.llyw.cymru)
- ¹⁴ [Siart Plant a Phobl Ifanc 2018 f5 \(safe4me.co.uk\)](http://www.safe4me.co.uk)
- ¹⁵ Mae'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol (NASA) yn ddull safonedig o ddarparu gwasanaethau eirioli statudol a gyflwynir gan y chwe Chydweithrediad Gwasanaethau Cymdeithasol Rhanbarthol. Nodir y trefniadau hyn yn y [Cod Ymddygiad ar gyfer Eiriolaeth \(Rhan 10\)](http://www.llyw.cymru) o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- ¹⁶ [Canllawiau Statudol i ddarparwyr gwasanaethau \(llyw.cymru\)](http://www.llyw.cymru)
- ¹⁷ [Fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol | LLYW.CYMRU](http://www.llyw.cymru)

¹⁸ [Canllawiau Statudol – Gwasanaethau Maethu \(llyw.cymru\)](#)

¹⁹ [Fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol | LLYW.CYMRU](#)

²⁰ Sharp-Jeffs, N; Coy, M; a Kelly, L. ,2017, *Key messages from research on child sexual exploitation: Social Workers* , Y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol, Prifysgol Fetropolitan Llundain

²¹ Hallett, S. (PI), Forrester, D., a Verbruggen, J. ,2016-18, *Keeping safe? An analysis of the outcomes of work with sexually exploited young people in Wales*. Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

²² Dynamix, (2018) *How do we measure children by what they think, and not by what their experiences are?* Ymgynghoriad ynglŷn â diogelu a gynhaliwyd gyda phobl ifanc ac a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

²³ Mae nifer o wahanol fathau o eiriolaeth i'w cael ac mae pob un yn ceisio cynorthwyo unigolion i ddweud eu dweud, egluro opsiynau a helpu unigolion i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau. Gweler Atodiad 3.

²⁴ <https://www.csacentre.org.uk/resources/blog/risk-tools-risk-talk-and-relationships/>
<https://www.csacentre.org.uk/our-research/responding-to-csa/risk-tools/>

²⁵ Ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Gonsortium Comisiynu Plant Cymru ym mis Chwefror 2021 gyda phlant a phobl ifanc.

²⁶ Sharp-Jeff, N; Coy, M. a Kelly, L. (2017) *Key messages from research on child sexual exploitation: Police*, Y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol

²⁷ [pan-fyddda-in-barod-canllaw-arfer-da-mawrth-2016.pdf \(llyw.cymru\)](#)

²⁸ [Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod – Iechyd Cyhoeddus Cymru \(nhs.wales\)](#)

²⁹ [Trin a throsglwyddo plant a phobl ifanc sydd yn y ddalfa | LLYW.CYMRU](#)

³⁰ [Fframwaith i gefnogi newid positif i'r rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru 2018-2023 \(iomcymru.org.uk\)](#)